

FRANKLEN, Syr THOMAS MANSEL 1840 - 1928), cyfreithiwr a gweinyddwr

Enw: Thomas Mansel Franklen
Dyddiad geni: 1840
Dyddiad marw: 1928
Priod: Florence Franklen (née Allen)
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: cyfreithiwr a gweinyddwr
Maes gweithgaredd: Cyfraith; Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil
Awdur: Robert Thomas Jenkins

Ganwyd yn 1840 yn Abertawe, yn fab i Richard Franklen, Y.H., D.L., o Clemenstone, a'i wraig, Isabella (Talbot). O Harrow aeth i Rydychen (Exeter, ac yn ddiweddarach Merton), a graddiodd yn 1861. Gwnaed ef yn fargyfreithiwr o Lincoln's Inn yn 1865, a bu'n gwasanaethu yng nghylch-daith De Cymru. Yn 1878 gwnaed ef yn glerc heddwch ym Morgannwg, ac yn 1889 yn glerc cyngor sir Forgannwg. Bu farw 29 Medi 1928, cyn ymddiswyddo. Priodasai Florence Allen yn 1872. Cawsai radd anrhydeddus LL.D., gan Brifysgol Cymru yn 1921, a'i urddo'n farchog yn yr un flwyddyn. Yr oedd yn aelod o Gymdeithas Hynafiaethau Cymru ac yn ffotograffydd brwdfrydig, fel y gweddai i berthynas i **W. H. Fox Talbot**, Margam. Gwnaed defnydd helaeth o'i luniau o groesau Celtaidd cynnar gan **J. Romilly Allen**, a chedwir casgliad o'i luniau o adeiladau hanesyddol yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Awdur

Yr Athro Emeritus Robert Thomas Jenkins, (1881 - 1969)

Ffynonellau

Archaeologia Cambrensis, 1928

Who was who?

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733060

Dyddiad cyhoeddi: 1970

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.



Arddull APA



Jenkins, R. T., (1970). FRANKLEN, Syr THOMAS MANSEL 1840 - 1928), cyfreithiwr a gweinyddwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c3-FRAN-MAN-1840>



Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government